# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Mandy Edwards**

**Pontypridd**



## Dyddiad Cyhoeddi

**28 Tachwedd 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.* *Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Mandy Edwards yn ymarferydd gofal plant profiadol sydd wedi bod yn darparu gwasanaeth gwarchod plant o''i chartref ym Mhentre' Eglwys ers 2005. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gwasanaeth i ddeg o blant hyd at 12 oed ac yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7:30am a 5:30pm. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Saesneg gyda rhywfaint o ddefnydd achlysurol o'r Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, yn cael sylw ac mae hoffter mawr rhyngddynt â'r gwarchodwr plant. Cânt ofal mewn amgylchedd diogel ac ysgogol gyda lle i chwarae dan do a chyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored gerllaw. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cofnodion a gadwyd yn drefnus ac wedi'u cwblhau.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi prynu teganau pren, naturiol ac adnoddau megis cegin fach gyda llestri a siop chwarae.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymell y dylai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol;

- Diweddaru'r holl waith papur â manylion AGC;
- sicrhau y rhoddir dyddiad ar bob adroddiad ansawdd gofal, ac
- ystyried cwblhau cwrs hyfforddiant 'Y Ddyletswydd Atal'.

# 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac wedi setlo yn y gwasanaeth hwn. Maent yn mynegi eu hunain ac yn hyderus y caiff eu llais ei glywed. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac mae ganddynt gydberthnasau cynnes a'u gofalwyr. Mae'r amrywiaeth o deganau ac adnoddau ar gael iddynt sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu.

### Ein canfyddiadau

## 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gwrandewir ar y plant, a gallant wneud dewisiadau. Cânt eu hannog i siarad a mynegi eu hunain.

Gwelsom y plant yn cyrraedd a mynd i'r ystafell chwarae yn hapus i ddewis gweithgaredd. Roedd rhai yn awyddus i liwio ac roedd eraill am wylio'r teledu. Gofynnodd y plant pe bai modd i'r gwarchodwr plant fynd â nhw i'r parc ar ôl ysgol y diwrnod hwnnw. Cytunwyd y byddai pawb yn penderfynu ar ddiwedd y dydd pan fydd y gwarchodwr plant yn dod i'w casglu i weld sut hwyliau sydd arnynt. Yn y parc, dewisodd y plant ba fyrbrydau roeddent am eu cael a pha liw cwpan roeddent am yfed eu diod ohono.

Mae'r plant yn hyderus y caiff eu llais ei glywed.

## 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio, ac mae ganddynt ymlyniadau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant.

Gwelsom y plant yn cerdded i mewn yn hapus ac yn ffarwelio â'u rhieni neu ofalwyr. Nid oedd y plant iau mor sicr ohonom, gan aros yn agos at y gwarchodwr plant. Gwnaethant setlo'n fuan a sgwrsio'n hapus am eu chwarae. Clywsom blant yn trafod sut roeddent yn teimlo pan fu eu hanifeiliaid anwes farw, a pha mor drist oeddent am fod eu hanifail anwes yn golygu gymaint iddynt. Gwnaeth y gwarchodwr plant gydnabod hyn ac roedd plant yn gwenu pan gawsant gydymdeimlad.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymlacio a setlo'n dda. Mae hoffter mawr rhyngddynt â'r gwarchodwr plant ac maent yn siarad am eu teimladau yn hyderus.

## 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn garedig ac yn deall yr angen i fod yn sensitif i emosiynau unigolion eraill. Mae angen atgoffa rhai i gymryd eu tro.

Roedd rhai plant yn chwarae yn annibynnol, yn tynnu llun ac yn lliwio. Roedd eraill yn chwarae gyda'i gilydd ar y llawr gyda theganau nad oeddent wedi'u gweld o'r blaen. Roedd doliau yn canu wrth iddynt bwyso ar fotwm, ac nid oedd pawb am wrando ar y gân ailadroddus. Gwnaethant ofyn, “can you stop playing that please?” a “the battery will run out if you press it all the time”. Trowyd i fod yn gêm am fod y gerddoriaeth yn parhau, a gofynnodd un o'r plant, “what if we don’t press it for one whole minute?”. Parhaodd y gerddoriaeth ond gwnaeth y plant ei hanwybyddu. Dywedodd un plentyn “I’m making a special dinner” a gofynnodd y plant eraill “can we all eat your special dinner?”. Dywedodd y plant ‘diolch’ pan gafwyd eu byrbryd. Gwelsom fod angen atgoffa rhai o'r plant i gymryd eu tro yn gwrtais pan gipiodd un ohonynt ddoli o law plentyn arall. Cytunwyd y byddai un plentyn yn cael y doli am gyfnod penodol cyn i'r llall ei chael. Mae rhyngweithio'r plant yn gadarnhaol ar y cyfan.

Mae'r plant yn deall ac yn parchu teimladau unigolion eraill.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac mae diddordeb ganddynt o ran beth sydd ar gael iddynt.

Gwelsom blant yn ymgysylltu â'u chwarae ac roeddent wedi gosod cymeriadau bach mewn rhes ar y llawr, yn barod i gymryd eu tro ar reid yn y ffair. Gwnaeth y plant esgus coginio ‘cinio arbennig’ yn y gegin, a gwnaethant ychwanegu amrywiaeth o fwyd chwarae i'r sosban. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau dod at y gwarchodwr plant, yn enwedig chwarae yn y parc a oedd yn agos i'r tŷ. Dywedodd y rhieni wrthym fod y plant yn cael dewis mynd i glwb brecwast, ond eu bod yn dewis mynd at y gwarchodwr plant am eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn ymgysylltu â'u chwarae.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael amrywiaeth o brofiadau sy'n hybu eu datblygiad yn gyffredinol.

Gwelsom blant yn defnyddio eu dychymyg i greu lluniau, y gwnaethant eu lliwio. Roedd plant iau yn mwynhau enwi siapiau gwahanol gyda'r gwarchodwr plant. Pan roedd yn amser cerdded i'r ysgol, gwisgodd y plant eu cotiau a'u hesgidiau. Roedd angen help ar rai ac roedd eraill wedi llwyddo gwneud heb gymorth. Roedd y plant yn mynd i'r toiled yn annibynnol ac yn golchi eu dwylo wedi hynny. Wrth gerdded i'r ysgol, roedd y plant yn trafod pam oedd y dail wedi disgyn o'r coed am fod y tymhorau'n newid. Gwrandawodd y plant ar negeseuon diogelwch wrth gerdded i'r ysgol a gwnaethant aros i weld y dyn gwyrdd cyn croesi'r ffordd.

Mae'r plant yn datblygu'n dda, a chânt eu hannog i fod yn annibynnol yn llwyddiannus.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Gwelsom fod y plant yn cael gofal gan warchodwr plant cymwys ac ymroddedig, sy'n garedig ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Caiff anghenion y plant eu diwallu ac mae'r gwarchodwr plant a'r rhieni yn cael trafodaethau rheolaidd.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i rôl a'i chyfrifoldebau o ran amddiffyn plant. Caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn iach drwy gynnal gweithgareddau corfforol rheolaidd.

Gwelsom fod y gwarchodwr plant yn adolygu'r holl bolisïau a gwaith papur yn flynyddol. Roedd y polisi amddiffyn plant yn cynnwys gweithdrefnau a rhifau cyswllt lleol ar gyfer atgyfeirio achosion. Ymatebodd y gwarchodwr yn gadarnhaol i sefyllfaoedd penodol ac eglurodd yn hyderus sut y byddai'n ymdrin â datgeliadau neu'n adnabod arwyddion o gam-drin. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn mynd am dro bob dydd, ym mhob tywydd. Aeth hi â'r plant i'r ysgol a'u casglu bob dydd. Clywsom y gwarchodwr plant yn atgoffa'r plant i olchi eu dwylo ar ôl mynd i'r toiled. Cafodd y plant a oedd yn eistedd yn rhy agos at y teledu eu hatgoffa ei fod yn beryglus. Gyda chaniatâd rhieni, roedd plant hŷn yn cyrraedd y gwasanaeth yn annibynnol yn y bore ac anfonodd y gwarchodwr neges destun at rieni i gadarnhau eu bod wedi cyrraedd yn ddiogel yn ei gofal.

Caiff y plant eu cadw'n ddiogel a chaiff eu hiechyd corfforol ei hyrwyddo.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl dda. Mae'n rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn cydnabod ymddygiad da.

Gwelsom fod y gwarchodwr plant yn canmol ymddygiad da, cwrteisi a chyflawniadau, er enghraifft 'well done', 'look how good you are!' a 'oh you're such a good boy' pan aeth un o'r plant i chwilio am ei esgidiau a cheisio eu gwisgo heb gymorth. Roedd y gwarchodwr plant yn dawel ac yn amyneddgar gyda'r plant, ac yn ymyrryd pan oedd dau blentyn eisiau cael yr un tegan. Gwnaeth y gwarchodwr plant drafod rhannu a chymryd tro, ac awgrymodd bennu rhywfaint o amser i un cyn i'r llall gael tro.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad yn gyson ac yn effeithiol.

**2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda, yn deall ac yn diwallu eu hanghenion, ac yn cadw cofnod o'u datblygiad.

Gwelsom gofnodion gwybodaeth manwl ar gyfer pob plentyn, a oedd yn cynnwys eu hoff a chas bethau a'u dewisiadau. Roedd gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant; er enghraifft, gwelsom ei bod hi'n siarad â'r plant iau ar lefel llygad gan ddefnyddio iaith glir a syml. Fodd bynnag, siaradodd â'r plant hŷn mewn modd mwy sgyrsiol a defnyddio hiwmor i'w hannog i sgwrsio.

Cofnodwyd cynnydd plant iau mewn llyfr lloffion unigol â ffotograffau o'r plant a'u gwaith creadigol, i gyd yn gysylltiedig â meysydd dysgu. Gwelsom gofnodion asesu ar gyfer y plant a gwblhawyd adeg dechrau yn y gwasanaeth ac yn rheolaidd wedi hynny.

Mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion plant unigol ac yn hyrwyddo eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad yn effeithiol.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn ddiogel a glân, ac yn effeithio'n gadarnhaol ar lesiant a dysgu'r plant. Mae gan y plant ystafell chwarae eu hunain gydag adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant. Ni chaiff y plant fynd i'r ardd.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r safle yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Cofnodwyd pob ymwelydd yn y dyddiadur dyddiol. Hefyd, cofnodwyd amseroedd cyrraedd a gadael y plant yn y dyddiadur dyddiol. Gwelsom asesiadau risg manwl wedi'u cwblhau ac yn cael eu diweddaru’n rheolaidd, yn ogystal â rhestrau gwirio dyddiol y cartref. Gwelsom dystysgrif gwirio gwres canolog ar gyfer y flwyddyn bresennol a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, y ddwy ohonynt yn ddilys. Cafodd y plant eu goruchwylio drwy'r amser pan aethant i'r parc cyfagos. Roedd ymarferion tân yn cael eu cwblhau a'u cofnodi bob mis. Roedd plant yn defnyddio tywelion papur i sychu eu dwylo a gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn yr ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn dda.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle'n groesawgar, yn addas, mewn cyflwr da ac wedi'i addurno'n dda.

Gwelsom fod y plant yn cael gofal da mewn amgylchedd chwarae a oedd yn lân, yn briodol i blant ac yn addas at y diben. Roedd digon o le yn yr ystafell chwarae a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod plant hŷn yn defnyddio'r brif lolfa ar ôl ysgol am fod yn well ganddynt chwarae gemau bwrdd neu wylio ffilm. Yn yr ystafell chwarae, mae blychau storio gydag amrywiaeth o adnoddau ar lefel y llawr sy'n golygu ei fod yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Nid oedd y plant yn cael mynd i'r ardd ond aethant i'r parc, a oedd gyferbyn â'r tŷ.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ardal chwarae ysgogol i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae gan y gwarchodwr plant gyflenwad da o deganau a chyfarpar sy'n addas i anghenion y plant.

Gwelsom fod y plant yn gallu dewis o blith amrywiaeth o adnoddau, megis cegin fach gyda llestri a bwyd ffug, doliau, caffi, set drenau, posau, blociau adeiladu, teganau synhwyraidd, garej a cheir, detholiad o lyfrau a theledu gyda chwaraeydd DVD. Gwelsom ffotograffau o blant yn chwarae gyda dŵr a thywod, yn ogystal â chwarae gyda reis a phasta mewn hambwrdd. Yn ein barn ni, roedd yr adnoddau yn lân ac yn briodol ar gyfer oedran a/neu ddatblygiad y plant. Roedd y plant hŷn yn cael defnyddio gemau bwrdd i'r teulu. Dywedodd y gwarchodwr wrthym ei bod hi'n cyfnewid teganau rhwng plant i gadw diddordeb y plant. Roedd yr holl adnoddau wedi'u storio yn y garej.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar o ansawdd da

# 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn uchel ei chymhelliant, yn gymwys ac mae'n amlwg yn mwynhau gofalu am y plant. Mae'n cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth yn dda, yn drefnus o ran bob agwedd ar gadw cofnodion ac mae system ar waith er mwyn adolygu'r gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Gwelsom fod y datganiad o ddiben yn rhoi darlun clir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu. Caiff yr holl bolisïau, gweithdrefnau a chontractau eu diweddaru bob blwyddyn. Mae'r arolygiad nesaf ym mis Rhagfyr 2018. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym y byddai'n defnyddio'r cyfle hwn i sicrhau bod manylion diweddaraf AGC ar yr holl waith papur. Yn ein barn ni, roedd y gwarchodwr plant yn uchel ei chymhelliant ac yn dangos ei bod hi wir yn mwynhau ei rôl.

Mae'r gwarchodwr plant yn effeithlon ac yn drefnus.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant system ar gyfer adolygu ei gwasanaeth. Mae'n gwerthfawrogi adborth gan y rhieni a'r plant.

Gwelsom fod yr adroddiad ar ansawdd gofal yn cynnwys arolygiad o'r flwyddyn ddiwethaf ac adborth gan rieni a phlant hŷn sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad. Roedd y rhieni'n hapus gyda'r gwasanaeth ac ni wnaethant argymell unrhyw feysydd i'w gwella. Gwnaethom siarad â phlant a ddywedodd wrthym eu bod yn mwynhau dod a bod yn well ganddynt ofal y gwarchodwr plant na dewisiadau eraill, megis clwb carco. Dywedodd un plentyn wrthym "I also like to play with things I don't have at home".

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei busnes yn effeithiol ac yn cael y gwiriadau angenrheidiol.

Roedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau bod yr oedolion yn y cartref wedi cael gwiriadau addasrwydd, fel gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac roedd hi'n deall bod cyfrifoldeb arni i hysbysu AGC am unrhyw newidiadau i aelodau'r cartref a/neu ei

gwasanaeth. Gwelsom fod pob agwedd ar gadw cofnodion yn drefnus iawn ac yn cael ei gadw dan glo yn ddiogel. Roedd rhieni'n cwblhau ffurflenni ‘Amdana i’ ar gyfer eu plant cyn dechrau'r gwasanaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei busnes yn effeithiol er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r plant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Roedd gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni, gwarchodwr plant eraill a'r gymuned.

Cawsom holiaduron gan rieni a gwnaethom siarad â'r rhieni a oedd yn canmol y gofal a roddir i'w plant. Roedd sesiynau ymgartrefu ac amserlenni yn unol â thelerau'r rhieni a'r plant, yn seiliedig ar yr hyn a oedd yn gyfleus iddynt. Rhoddodd y gwarchodwr plant adborth ar lafar i'r rhieni ar ddiwedd y dydd, ac roedd dyddiaduron ar gael pe byddai'n well gan rieni gael adborth ysgrifenedig. Hefyd, roedd hi'n anfon ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau at rieni o'i ffôn. Mae'r gwarchodwr plant mewn cysylltiad â gwarchodwr plant yn y gymuned ac yn mynd i grwpiau chwarae gyda'i gilydd, teithiau i'r amgueddfa neu i'r siopau lleol ac yn cynnal cyfarfodydd yn nghartrefi ei gilydd. Gwnaeth y gwarchodwr plant ddefnyddio gwarchodwr plant lleol arall pan oedd argyfwng.

Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a gwarchodwyr plant eraill yn y gymuned, ac mae'n ymrwymedig i gydweithio er lles y plant.

.

## 5.Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y dylai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol;

- Diweddaru'r holl waith papur â manylion AGC;
- sicrhau y rhoddir dyddiad ar bob adroddiad ansawdd gofal, ac
- ystyried cwblhau cwrs hyfforddiant 'Y Ddyletswydd Atal'.

## 6. Sut y cynhaliwyd yr arolygiad hwn gennym

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd un arolygydd un ymweliad â rhybudd â'r gwasanaeth ar 3 Hydref 2018 am gyfanswm o dair awr a 45 munud.

- Gwnaethom arsylwi'r plant a'r gofal a roddwyd iddynt gan y gwarchodwr plant;
- gwnaethom edrych ar sampl o ddogfennau gan gynnwys ffeiliau'r plant, polisïau a gweithdrefnau, cofnodion meddyginiaeth a damweiniau, tystysgrifau hyfforddiant ac asesiadau risg;
- gwnaethom siarad â'r gwarchodwr plant a'r plant a oedd yn bresennol;
- cawsom adborth gan y rhieni a gwblhaodd holiaduron, a gwnaethom siarad â'r rhieni a
- gwnaethom archwilio'r safle dan do ac yn yr awyr agored.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Mandy Edwards** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **0 – 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener 7.30am – 5.30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **18 Chwefror 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **03 Hydref 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Na** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Na** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.Fodd bynnag, mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn rheolaidd.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |